# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 6 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a/ac J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Griffiths, Head of Place and Sustainability
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 11.35 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Hefyd estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Rhodri Griffiths i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Cynllunio yn dilyn ei benodiad yn Bennaeth Lle a Chynaliadwyedd y Cyngor.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/37086** | **Cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol i godi 8 seilo allanol parod â gorffeniad/adeiladwaith alwminiwm h.y. 6 seilo 3.5m ar draws x 12m o uchder a 2 seilo 3.5m ar draws x 10m o uchder. Defnyddir y seilos i storio gronynnau/pelenni polyfinyl clorid a ddefnyddir i gynhyrchu proffil ffenestr polyfinyl clorid (upvc) heb blastig, Victorian House, Ystad Ddiwydiannol Capel Hendre, Rhydaman, SA18 3SJ** |
| **PL/00151** | **Datblygiad Tai sy'n cynnwys 4 Llain – Tir i'r Gogledd o** |

| | |
|---|---|
| | **Gapel Soar, Llwynhendy, Llanelli, SA14 9NY** |
| **PL/00542** | **Gosod paneli haul ar do nifer o adeiladau swyddfeydd ar safle Parc Dewi Sant – Adeilad 8, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB** |
| **PL/02602** | **Cais am ddatblygiad preswyl, tir ger 172 Pant Bryn Isaf, Llwynhendy, Llanelli, SA14 9EJ**<br><br>**(NODER: Mae caniatâd hefyd yn amodol ar i'r cais fodloni gofynion yr Awdurdod Glo)** |

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9 RHAGFYR 2021

Cyfeiriwyd at sylwadau'r aelod lleol ynghylch cais cynllunio PL/00799 yng nghofnod 3.1 yn gwrthwynebu'r cais. Eglurwyd nad oedd yr aelod wedi gwrthwynebu'r cais, dim ond gwneud rhai sylwadau ynghylch materion a godwyd gan y gwrthwynebwyr a'i bod wedi bwriadu cymeradwyo'r cais yn amodol ar ganlyniad y drafodaeth.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr eglurhad uchod, lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021 yn gywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]